**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau i'w osod gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026. Mae hyn yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**17 Chwefror 2026**

## 1. Diben a throsolwg

1.1. Mae Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026 ("y Gorchymyn Diwrnod Penodedig") yn dod â Chod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 y Comisiwn Etholiadol i rym ar 18 Chwefror 2026.

1.2. Gosodwyd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 yn y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y Gorchymyn Diwrnod Penodedig o dan adran 100C(8)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000"). Er nad yw'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig yn dilyn un o weithdrefnau'r Senedd, mae'n ofynnol iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.2. Mae dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100A(1A) o Ddeddf 2000 i lunio Cod Ymarfer sy'n rhoi arweiniad ar weithredu Rhan 6 o Ddeddf 2000 ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

3.3. Gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025 a daw i rym gan y Gorchymyn Diwrnod Penodedig. Caiff y Cod Ymarfer ei ddyroddi, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan adran 100C(8)(a) o Ddeddf 2000 a bydd yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100C(8)(c) o Ddeddf 2000.

## 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Gorchymyn Diwrnod Penodedig. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.